



Companies House
Tŷ'r Cwmnïau

Adroddiad Monitro Blynyddol

Cynllun Iaith Gymraeg

1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018

ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL TŶ'R CWMNÏAU

1 EBRILL 2017 – 31 MAWRTH 2018

1. Cyflwyniad

Paratowyd Cynllun Iaith Gymraeg Tŷ'r Cwmnïau yn unol ag adran 21(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg a chafodd gymeradwyaeth lawn Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 20 Ebrill 2010.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018.

James Biott, sef y Prif Ymgynghorydd Polisi, sy'n gyfrifol am weithrediad y Cynllun Iaith yn Nhŷ'r Cwmnïau. Fe'i cynorthwyir yn hynny o beth gan bwyllgor sy'n cyfarfod yn gyson i fonitro cynnydd a pherfformiad, ynghyd â thîm o siaradwyr Cymraeg y gall ymgynghori â nhw ar faterion pob dydd.

2. Dehongliad

"TC" yw Tŷ'r Cwmnïau

"Deddf 2006" yw Deddf Cwmnïau 2006

"y Cofrestrydd" yw'r Cofrestrydd Cwmnïau

"PAC" yw Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig

"PC" yw Partneriaeth Cyfyngedig

Ystyr "Cwmni/PAC Cymreig" yw cwmni neu PAC, yn ôl diffiniad adran 88 o Ddeddf 2006 (fel y'u cymhwysir i PAC), sydd wedi hysbysu'r Cofrestrydd y lleolir ei swyddfa gofrestredig yng Nghymru. Adeg corffori, rhaid i gwmni ddweud a yw'n bwriadu lleoli ei swyddfa gofrestredig yng Nghymru, Lloegr a Chymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Rhaid i gyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni fod yn y wlad y maent wedi datgan y lleolir ei swyddfa gofrestredig ynddi.

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006, gall cwmni Cymreig ddewis cael enw cwmni Cymraeg, a therfyniad enw Cymraeg (h.y. cyfyngedig, cwmni cyfyngedig cyhoeddus) a chaiff ffeilio dogfennau statudol yn Gymraeg. Gall cwmni Lloegr a Chymru fod â chyfeiriad ei swyddfa gofrestredig yng Nghymru neu Loegr, ond ni all y cwmni gael enw Cymraeg na therfyniad enw Cymraeg, ac ni chaiff ffeilio dogfennau statudol yn Gymraeg.

3. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Mae TC wedi ymrwymo o hyd i gydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg, a rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, cyflawnodd y canlynol:

- 3.1 Cynhaliodd y pwyllgor iaith gyfarfodydd chwarterol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Chynllun Iaith TC ac adolygu cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu, sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn. Hefyd cynhaliwyd cyfarfodydd gwasanaeth Gymraeg i ystyried y gwasanaeth a gynigir i gwsmeriaid Gymraeg eu hiaith.
- 3.2 Parhaodd tîm o siaradwyr Gymraeg o wahanol fannau yn Nhŷ'r Cwmnïau i ymateb i ymholiadau cwsmeriaid. Cafodd ein Canolfan Gysylltu oddeutu 66,000 o alwadau bob mis, yr oedd oddeutu 5 yn alwadau Gymraeg. Cawsant tua 54,000 o negeseuon e-bost y mis hefyd, ac roedd rhyw 20 o'r rhain yn y Gymraeg.
- 3.3 Yn y cyfnod o dan sylw, cysylltodd 34 o gwsmeriaid Gymraeg eu hiaith â ni gydag ymholiadau, gan gynnwys:
 - 28 o ymholiadau cyffredinol, i holi a oedd dogfennau wedi dod i law ac i ofyn am gyngor ar sut i lenwi ffurflenni, sut i gyrchu tudalennau Gymraeg ar gov.uk, sut i newid manylion cyfarwyddwyr a cheisiadau am ffurflenni papur;
 - 3 llythyr yn apelio yn erbyn cosbau ffeilio hwyr.
 - 1 Cais Rhyddid Gwybodaeth
 - 2 ddarn o ohebiaeth yn ymwneud â ffeilio cyfrifon blynyddol
- 3.4 Fe barhaon ni i ryddhau'r ffurflenni sy'n cael eu ffeilio amlaf, sydd i gyfrif am 95% o'r dogfennau sy'n cael eu ffeilio ar y gofrestr, yn ddwyieithog, a hynny ar bapur ac mewn fformat electronig.
- 3.5 Roedd yr holl ganllawiau sydd wedi'u creu gan Dŷ'r Cwmnïau ar gael yn ddwyieithog, ac eithrio'r rhai penodol nad ydynt yn berthnasol i Gwmnïau Cymreig (e.e. canllawiau ar faterion sy'n effeithio ar gwmnïau yr Alban yn unig).
- 3.6 Fe fynychon ni un digwyddiad allanol yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd, sef un seminar i Gyfarwyddwr Newydd ei B/Phenodi, lle darparasom siaradwyr Gymraeg. Nid yw TC yn cynnal nac yn mynychu digwyddiadau allanol yn y Deyrnas Unedig mwyach gan ein bod yn ceisio ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid a'u rhwydweithiau, yn ogystal â thrwy ddefnyddio dulliau digidol, fel Webinarau gydag adrannau eraill y Llywodraeth.
- 3.7 Parhaodd cwsmeriaid i ohebu â Thŷ'r Cwmnïau yn Gymraeg a chawsant atebion yn Gymraeg. Yn ogystal, gall cwmnïau gofrestru eu dewis iaith ar gyfer gohebiaeth flynyddol trwy gysylltu â TC. Hysbysebir y cyfleuster hwn ar GOV.UK. Cafodd 127 o gwmnïau ychwanegol ohebiaeth ddwyieithog yn ystod y cyfnod adrodd. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, o gofrestr ag arni gyfanswm o dros 4 miliwn o gwmnïau, roedd tua 567 o gwmnïau, ac 11 PAC wedi nodi eu bod am gael gohebiaeth flynyddol yn ddwyieithog.

- 3.8 Daeth 128 o setiau o gyfrifon Cymraeg oddi wrth gwmnïau Cymreig, sef 20 yn fwy na'r llynedd. Cyfieithwyd pob un o'r cyfrifon hyn i'r Saesneg ar gyfer y cofnod cyhoeddus, a chyfieithwyd 88 o setiau yn fewnol gan ddefnyddio meddalwedd cyfieithu arbenigol er mwyn helpu i ddarparu cyfieithiadau cyson o'r Gymraeg. Yn ogystal, cyfieithwyd 58 darn o ohebiaeth i'r Gymraeg i fodloni gofynion ein Cynllun Iaith. Roedd hyn yn cynnwys, llythyrau, canllawiau, a gwaith prosiect, ar gyfer y wefan a'r gwasanaethau ar-lein.
- 3.9 Cawsom 2 'drydariad' yn Gymraeg a gafodd atebion yn Gymraeg.
- 3.10 Roedd yr holl gontractau a gyhoeddwyd yn cynnwys cymal i sicrhau bod ein partneriaid gwasanaethu'n cydymffurfio â rhwymedigaethau TC o ran y Gymraeg.
- 3.11 Fe fynychon ni achlysur ymgysylltu a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, sef *Taro'r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg*, yn Abertawe yn Hydref 2017.

4. Prif-ffrydio'r Gymraeg

Ystyriodd TC y Gymraeg yn y ffyrdd canlynol:

- 4.1 Rydym wedi parhau i ystyried ein gwasanaethau cyfrwng Cymraeg o gychwyn cyntaf ein holl brosiectau trwy gynnwys y Gymraeg yn rhestrau cyfeirio'r holl reolwyr prosiect, ac mewn cynlluniau datblygu eraill.
- 4.2 Ar ddechrau'r cyfnod, ar 26 Mehefin 2017, gweithredodd TC y 4edd Gyfarwyddeb Gwyngalchu Arian. Cyflwynodd y Gyfarwyddeb hon ffeilio ar sail digwyddiadau h.y. gofyniad am i bobl sydd â rheolaeth arwyddocaol (PRhA) dros gwmnïau gyflwyno diweddariadau i TC cyn pen 14 diwrnod ar ôl i'w manylion yn newid. Diweddarwyd canllawiau a ffurflenni allweddol yn Gymraeg yn sgil hyn.
- 4.3 Rydyn ni wedi dal ati i gynyddu'r cynnwys Cymraeg ar gov.uk, gan gynnwys tudalennau'r brif ffrwd a gynhelir gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS), er enghraifft, y canllawiau diwygiedig ar gyfer y Datganiad Cadarnhau.
- 4.4 Yn 2017/18, comisiynwyd 10 clip fideo newydd sy'n dangos ein hamrywiol wasanaethau. YouTube fydd yn lletya'r rhain, cânt eu defnyddio ar draws ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol a byddant ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff y rhain eu cynhyrchu trwy gydol 2018/19.
- 4.5 Wrth i ni ddatblygu rhagor ar ein gwasanaeth beta ar gyfer cwsmeriaid, sef un gwasanaeth i gofrestru a chwilio am wybodaeth cwmnïau, bydd TC yn datblygu rhagor o wasanaethau a fydd ar gael bob cam o'r dechrau i'r diwedd yn Gymraeg. Nid yw'r amserlen ar gyfer hyn yn glir am ein bod ni'n cychwyn rhaglen drawsnewid sefydliadol. Ystyri'r ddarpariaeth gyfrwng Gymraeg yn hynny o beth.

5. Dangosyddion perfformiad

- 5.1 Yn ystod y cyfnod o dan sylw, roedd 5,018 o gwmnïau Cymreig, a 24 o PACau Cymreig wedi eu corffori. Roedd cyfanswm o 620,287 o gwmnïau a 5,483 o PACau wedi eu corffori yn ystod y cyfnod hwn.
- 5.2 Erbyn diwedd y cyfnod adrodd, roedd 21,305 o gwmnïau Cymreig a 140 o PACau Cymreig ar y gofrestr, o gymharu â mwy na 4 miliwn o gwmnïau a mwy na o 53,000 PAC.
- 5.3 Erbyn diwedd y cyfnod adrodd, roedd yna 1,164 o gwmnïau Cymreig ac 9 PAC Cymreig ar y gofrestr oedd wedi eu corffori â therfyniad enw Cymraeg. Cafodd 181 o gwmnïau Cymreig eu corffori â therfyniad enw Cymraeg yn 2017/18.

6 Gwasanaethau'r Rheng Flaen

Canran a nifer y staff dwyieithog:

Canolfan Gyswllt TC

- 6.1 Mae un aelod llawn-amser ac un aelod rhan-amser o staff y Ganolfan Gysylltu'n ddwyieithog. Mae gofyniad contractiol i ddarparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae unrhyw ymdrechion i recriwtio'n nodi bod y Gymraeg yn ddymunol. Mae yna ymarferion recriwtio parhaus.
- 6.2 Os oes cwsmer yn gofyn yn benodol am gael siarad â siaradwr Cymraeg, ond nad oes un ar gael, rydyn ni'n cynnig y dewis i'r cwsmer o barhau â'r sgwrs yn Saesneg, neu ofyn am rif ffôn i gysylltu â'r cwsmer fel bod siaradwr Cymraeg yn gallu cysylltu â nhw'n uniongyrchol yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg.

Y Dderbynfa Gyhoeddus

- 6.3 Nid oes unrhyw staff dwyieithog yn nerbynfa TC. Mae'r staff yn gallu cyfarch ymwelwyr yn Gymraeg ac mae yna arwydd amlwg sy'n rhoi gwybod i ymwelwyr bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar gais. Mae gan staff y dderbynfa restr o staff sy'n medru'r Gymraeg y gallant gysylltu â nhw os gwneir cais. Fodd bynnag, ni ofynnodd unrhyw ymwelwyr am gael trafod busnes Tŷ'r Cwmnïau yn Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

Llinell gymorth dros y ffôn

- 6.4 Rydym wedi parhau i ddarparu un rhif ffôn allanol penodol i gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith, a gafodd 14 galwad yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd grŵp mewnol o siaradwyr Cymraeg, sy'n gweithio mewn gwahanol rannau o'r sefydliad, ar gael hefyd i ddelio ag unrhyw ymholiadau yn Gymraeg.

7 Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Iaith

Nifer y staff a gafodd hyfforddiant yn y Gymraeg hyd lefel cymhwyster ardystiedig:

- 7.1 Mae TC yn cynnig cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg yn unol â'i Gynllun Addysg i Oedolion. Mae TC wedi cefnogi aelodau o staff sydd wedi manteisio ar y cyfle hwn yn llwyr trwy dalu costau cyrsiau ac unrhyw arholiadau, a darparu amser i astudio ar gyfer arholiadau a'u sefyll. Anogwyd staff i gofrestru ar gysiau trwy eu Canolfannau Cymraeg i Oedolion lleol. Erbyn diwedd y cyfnod adrodd, roedd saith o bobl wedi cofrestru ar raglenni dysgu Cymraeg gan amrywio o Lefel Mynediad i Lefel Hyfedredd; roedd 4 wedi cofrestru gyda Phrifysgol Caerdydd, a 2 gyda Phrifysgol De Cymru ac un gyda *Dysgu Cymraeg y Fro*.
- 7.2 Bydd TC yn parhau i fonitro defnydd, ac yn cadw llygad ar effeithiolwyd y dull hwn o weithredu.

Nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith:

- 7.3 Atgoffwyd yr holl staff am ein hymrwymiaidau o ran y Gymraeg yn rheolaidd trwy hysbysiadau ar safle Mewnwyd TC ac ar safle cyfryngau cymdeithasol y staff. Parhawyd i ddefnyddio'r dudalen gymdeithasu Cymraeg ar y safle hwn.
- 7.4 Hefyd rhoesom gyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau Cymraeg yn yr ardal leol, i'r aelodau hynny o'r staff a allai fod â diddordeb mewn mynd, a hefyd rhoesom gymhorthdal i Gynllun Chwarae Haf Cymraeg

8 Technoleg Gwybodaeth

Ni chafodd unrhyw systemau TG eu hasesu gan ddefnyddio cynllun achredu meddalwedd ddwyieithog y Bwrdd; mae cynnwys Cymraeg yn rhywbeth rydyn ni'n dewis ei ymgorffori.

9 Gweinyddu'r Cynllun

Nifer y cwynion a gafwyd am ddiffyg darpariaeth gwasanaethau yn Gymraeg a'r camau a gymerwyd i ddatrys y cwynion:

- 9.1 Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cysylltodd cwsmeriaid â TC am ei Wasanaeth Cymraeg ar 25 achlysur, a cheir crynodeb o'r rhain isod:

- Roedd cwsmer wedi ffeilio cyfrifon ar lein yn Gymraeg, ond ymddangosodd y cyfrifon ar gofnod y cwmni yn Saesneg. Cynigiwyd ymddiheuriad i'r cwsmer ac esboniwyd y câi'r broblem hon ei datrys wrth i ni ddatblygu rhagor ar ein gwasanaeth beta (fel y mae para 4.5 yn ei esbonio) a'i ddarparu yn Gymraeg
- Bu angen i gwsmer aros nes bod siaradwr Cymraeg ar gael wrth ffonio ein Canolfan Gysylltu yn unol ag amodau ein Cynllun Iaith. Tra roedd yn aros, gallai'r cwsmer glywed aelodau o'r staff yn siarad amdano. Cynigiwyd ymddiheuriad i'r cwsmer ac fe fwydon ni'r gŵyn nôl i'r Ganolfan Gysylltu, gan eu hatgoffa am ein hymrwymiaidau mewn perthynas â'r Gymraeg.
- Gwrthodwyd ffurflen benodi ar gam am y nodwyd galwedigaeth yr unigolyn o dan sylw yn Gymraeg. Anfonwyd ymddiheuriad at y cwsmer, a ailgyflwynodd y ffurflen ac atgoffwyd y staff am ein hymrwymiaidau o ran y Gymraeg.
- Roedd ffurflen Datganiad Cadarnhau ddwyieithog ar gael trwy'r opsiwn chwilio ar gov.uk yn unig a nid ar y dudalen ffurflenni. Rhoddwyd ymddiheuriad i'r cwsmer ac anfonwyd ffurflen ddwyieithog trwy'r post. Mae'r ffurflen hon ar gael nawr ar dudalen ffurflenni ddwyieithog.
- Cawsom broblemau gydag acenion yn ymddangos yn wallus ar rai llythyrau a oedd yn cael eu cynhyrchu trwy gyfrifiadur. Cwynodd cwsmer fod M^on yn ei gyfeiriad yn hytrach na M^on. Mae'r broblem wedi cael ei datrys erbyn hyn ac ni chafwyd unrhyw gwynion pellach.
- Roedd yna broblem gyda thystysgrifau Cymraeg yn dangos y wybodaeth anghywir. Rydyn ni'n dal i weithio i ddatrys y mater yn llwyr, ond anfonwyd ymddiheuriad at y cwsmer a dynnodd ein sylw at y mater, ynghyd â'r dystysgrif gywir.
- Anfonwyd llythyrau ar gyfer cyfarwyddwyr newydd eu penodi at gyfarwyddwr yn uniaith Saesneg. Nid yw'n bosibl bob tro gwybod beth yw dewis iaith y cyfarwyddwr adeg ei benodi, ac am fod y llythyrau hyn yn cael eu cynhyrchu trwy gyfrifiadur, aeth allan yn Saesneg y tro hwn. Anfonwyd fersiwn Gymraeg o'r llythyr a'r atodiad at y cwsmer ynghyd ag ymddiheuriad, a rhoddwyd mesurau ar waith i geisio atal hyn rhag digwydd eto yn y dyfodol.
- Cawsom 'drydariad' Cymraeg yn dweud bod ein gwasanaeth cofrestru cwmni ar lein ar gael yn Saesneg yn unig. Nid oedd yn glir pa wasanaeth yr oedd y 'trydariad' hwn yn cyfeirio ato, felly anfonwyd ateb gyda dolenni at ein gwasanaeth WebFiling Cymraeg. Ni chawsom ymateb pellach.
- Rhagfyr yw'r mis prysuraf o ran ffeilio cyfrifon cwmnïau a chawsom nifer fwy nag erioed o'r blaen o gyfrifon a ffeiliwyd yn Gymraeg dros y cyfnod. Roedd yn cymryd mwy o amser nag arfer i'w prosesu, a daeth nifer o gwynion i law. Ymddiheurasom i'r cwsmeriaid yr oedd hyn wedi effeithio arnynt ond cadarnhaom fod y Gymraeg yn cael ei thrin yn yr un ffordd â chyfrifon Saesneg.
- Cafwyd dwy gŵyn am rif ffôn y Ganolfan Gysylltu am nad oes opsiwn Cymraeg ar gael. Nid yw'n bosibl cynnig yr opsiwn yma ar ein system, ond atgoffwyd y

cwsmeriaid fod rhif ffôn Cymraeg uniongyrchol ar gael ar ein gwefan yn unol â'n Cynllun Iaith.

- Cawsom nifer o gwynion am nad oedd siaradwr Cymraeg ar gael ar unwaith yn ein Canolfan Gysylltu. Atgoffwyd yr achwynwyr, yn unol â'n Cynllun Iaith, y byddwn yn trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg os oes un ar gael, neu y byddwn ni'n cymryd y rhif ac yn trefnu bod siaradwr Cymraeg yn rhoi galwad nôl iddyn nhw.
- Cawsom gŵyn am y ffaith nad yw'n gwasanaeth beta'n caniatáu ar gyfer corffori cwmni yn Gymraeg. Gellir corffori cwmnïau yn Gymraeg trwy ein gwasanaeth WebFiling. Nid yw'n bosibl corffori cwmni ar y gwasanaeth beta, yn Gymraeg nac yn Saesneg, ar hyn o bryd.
- Anfonwyd cod dilysu Saesneg at gwsmer sy'n siaradwr Cymraeg. Ar ôl ymchwilio i'r gŵyn, roedd hi'n debyg bod y cwsmer wedi gofyn am y llythyr trwy ein gwasanaeth Saesneg. Darperir llythyr Cymraeg trwy ein gwasanaeth Cymraeg.
- Roedd neges 'Trydar' yn Gymraeg yn cynnwys dolen i blog Saesneg ar gov.uk am ei fod o ddiddordeb i bob cyfarwyddwr. Cwynodd cwsmer nad oedd y blog ar gael yn Gymraeg. Mae'r blogiau hyn y tu hwnt i'n rheolaeth am taw GDS sydd biau'r tudalennau.
- Cawsom gwynion ynghylch gov.uk a'r anhawster wrth gyrchu rhai tudalennau yn Gymraeg. Am taw GDS sy'n rheoli'r wefan hon, mae angen i ni gydymffurfio a'u cyfarwyddiadau nhw. Fodd bynnag, bu modd cyfeirio'r cwsmer at y dudalen ofynnol, ac fe'i cynghorwyd o ran sut i gyrchu gwasanaethau Cymraeg yn y dyfodol.

10. CASGLIAD

10.1 Bydd Pwyllgor y Gymraeg yn dal ati i sicrhau bod TC yn parhau i fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Cynllun Iaith. Rydyn ni wedi ymrwymo o hyd i ddarparu gwasanaeth Cymraeg rhagorol ar gyfer ein cwsmeriaid.

Tŷ'r Cwmnïau - Cynllun Gweithredu

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn / nodiadau
1. Deddfwriaeth a mentrau			
Adolygu'r Cynllun Gweithredu pob chwarter	Bob chwarter	Strategaeth a Pholisi	Adolygwyd cynnwys y Cynllun Gweithredu fel rhan o waith Pwyllgor y Gymraeg a gyfarfu yn chwarterol yn 2017/18.
Adolygu'r Cynllun Strategol pob chwarter i gyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu ar yr iaith Gymraeg.	Bob chwarter	Strategaeth a Pholisi	Mae ein hymrwymiad i wasanaethau Cymraeg yn sail i ddau o'n nodau strategol allweddol: <i>Rhagoriaeth o ran cofrestru a chwilio am gwmnïau a Chreu diwylliant o berfformiad da.</i>
Ystyried sut y bydd polisiau, prosiectau a datblygiadau newydd yn cydymffurfio â'r ymrwymadau a nodir yn y Cynllun Iaith Gymraeg	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Rydyn ni wedi parhau a byddwn yn parhau, i ystyried ein Cynllun Iaith wrth gychwyn polisiau, projectau a datblygiadau newydd
Galluogi cwmnïau Cymreig i fwynhau "Profiad Cymraeg" wrth gorffori.	Hydref 2012	Cyflawni Atebion Busnes	Cwblhawyd hyn yn Hydref 2012.
Galluogi corffori ar-lein llawn i gwmnïau Cymreig yn Nhŷ'r Cwmnïau	Mawrth 2013	Cyflawni Atebion Busnes	Cwblhawyd hyn ar 6 Ebrill 2013.

Gwella'r gwasanaeth Newid Enw ar WebFiling er mwyn cynhyrchu cyfieithiad o'r dystysgrif (sy'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd).	Mawrth 2013	Y Gyfarwyddiaeth Cyflawni ar gyfer Cwsmeriaid	Wrth i ni ddatblygu gwasanaeth beta TC ymhellach ar gyfer cwsmeriaid, bydd TC yn datblygu rhagor o wasanaethau sy'n defnyddio'r Gymraeg o ddechrau'r broses i'w diwedd. Fodd bynnag, nid yw'r amserlen ar gyfer gwneud hyn yn glir ar hyn o bryd.
2. Staffio			
Cynnal yr hyfforddiant iaith cyfredol, gan dargedu sgiliau Cymraeg llafar.	Yn parhau	Adnoddau Dynol	Paragraff 7 o'r adroddiad
Sicrhau bod staff sy'n medru'r Gymraeg yn yr holl brif feysydd gweithredol er mwyn darparu gwasanaeth ar gyfer cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg	Yn parhau	Cyfarwyddwyr	Mae TC yn sicrhau bod staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael ym mhob maes er mwyn archwilio gwybodaeth sy'n cael ei ffeilio yn Gymraeg ac ymateb i gwsmeriaid yn Gymraeg.
Hyrwyddo'r hyn sy'n ofynnol o TC o dan y Cynllun Iaith yn fewnol, gan sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gwybod ble i droi am gymorth.	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Defnyddiwyd y safle mewnwyd yn rheolaidd i dynnu sylw ein staff at ein hymrwymiad i'n Cynllun Iaith.
Cynnal tîm Cymraeg yn Nhŷ'r Cwmnïau i ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg a chynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod problemau a chynnydd.	Yn parhau	Cyflawni ar gyfer Cwsmeriaid	Mae tîm y Gymraeg wedi parhau i fod ar gael ac wedi cyfarfod yn rheolaidd.

3. Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd, hysbysebion a datganiadau i'r wasg			
Sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn mynychu pob digwyddiad yng Nghymru lle mae presenoldeb gan TC.	Yn parhau	Y Tîm Digwyddiadau	Paragraff 3.6 o'r adroddiad
Sicrhau bod deunydd darllen Cymraeg ar gael mewn digwyddiadau a gynhelir yng Nghymru	Yn parhau	Y Tîm Digwyddiadau	Cwblhawyd
Sicrhau bod hysbysebion a datganiadau i'r wasg sy'n cael eu cyhoeddi yng Nghymru ar gael yn Gymraeg.	Yn parhau	Adnoddau Dynol /TGCh	Lle cyhoeddir hysbysebion swyddi yn y wasg Gymraeg maent yn ddwyieithog, fodd bynnag nid oes cyfleuster ar gyfer hysbyseb swydd ddwyieithog ar wefan swyddi'r Gwasanaeth Sifil.
4. Cyhoeddiadau a ffurflenni			
Sicrhau bod holl gyhoeddiadau Cymraeg TC yn cael eu diweddarau'r un pryd â'r fersiynau Saesneg	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Mae TC yn parhau i sicrhau bod cyhoeddiadau Cymraeg yn cael eu diweddarau yr un pryd â'r cyhoeddiadau Saesneg.
Sicrhau bod yr holl ffurflenni statudol Cymraeg yn cael eu diweddarau'r un pryd â'r fersiynau Saesneg.	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Mae Tŷ'r Cwmnïau'n dal i sicrhau bod ffurflenni Cymraeg yn cael eu diweddarau ar yr un pryd â ffurflenni Saesneg.

Monitro defnydd o lythyrau er mwyn sicrhau bod fersiynau Cymraeg yn cael eu defnyddio pan fo hynny'n briodol	Yn parhau	Datblygu Newid Busnes	Mae Tŷ'r Cwmnïau'n dal i fonitro'r defnydd o lythyrau er mwyn sicrhau y darperir ateb yn Gymraeg lle bo angen. Drwy gydol y cyfnod mae ein tîm Cymorth Cyflawni i Gwsmeriaid wedi adolygu'r ddarpariaeth o lythyrau Cymraeg gennym ni.
5. Gwefannau			
Sicrhau bod y wefan Gymraeg yn cael ei diweddarau'r un pryd â'r fersiwn Saesneg, pan fo hynny'n briodol, a bod y wybodaeth ar y wefan Gymraeg yn gyfoes	Yn parhau	Deall y Cwsmer	Parhawyd i gynyddu'r cynnwys Cymraeg ar GOV.UK.
6. Cyfarfodydd wyneb yn wyneb			
Sicrhau bod modd i gwsmeriaid ofyn am gael siarad â siaradwr Cymraeg os ydynt am gynnal eu busnes yn Gymraeg.	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Mae TC yn parhau i gynnig y gwasanaeth hwn, ond ni chafwyd unrhyw geisiadau amdano yn ystod y cyfnod adrodd.
7. Cyfathrebu ar y ffôn			
Sicrhau bod modd i gwsmeriaid sydd am gynnal eu busnes yn Gymraeg ofyn (yn Saesneg) am gael siarad â siaradwr Cymraeg	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Paragraff 6 o'r adroddiad

8. Arwyddion			
Sicrhau bod yr holl arwyddion cyhoeddus yn swyddfa Caerdydd yn ddwyieithog.	Yn parhau	Gwasanaethau'r Adeiladau	Cynhyrchir yr holl arwyddion cyhoeddus yn ddwyieithog
9. Cwynion			
Sicrhau bod cwynion am wasanaethau Cymraeg TC yn cael eu harchwilio'n fanwl ac yn cael eu datrys yn brydlon, a hynny'n unol â threfn gwynion arferol Tŷ'r Cwmnïau.	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Paragraff 9 o'r adroddiad
Monitro'r cwynion am wasanaethau dwyieithog.	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Mae'r Ymgynghorydd Gwasanaethau Cymraeg yn monitro'r holl gwynion am y gwasanaeth dwyieithog yn unol â Pharagraff 9 o'r adroddiad.